# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 30 Mai 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

2 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Dadneilltuo Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

**C4 Cynog Dafis:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau na fydd unrhyw arian cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn cael ei ddadneilltuo dros y tair blynedd nesaf? (OAQ18122) [W] ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn sicrhau y cyrhaeddir yr holl dargedau y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewrop drwy:

- weithio mewn partneriaeth i annog ceisiadau o safon;
- monitro'n agos geisiadau oddi wrth noddwyr, a monitro hefyd a yw eu gwariant yn unol â'r proffil;
- gweithio gyda noddwyr i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno a bod eu gwariant yn unol â'r proffil.

### Prosiect Technium y Cyfryngau

**C5 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog roi'r hanes diweddaraf inni am brosiect Technium y cyfryngau yn Sir Gaerfyrddin? (OAQ18045)

**Andrew Davies:** Mae prosiect Technium y cyfryngau yng Ngelli Aur yn rhan bwysig o waith datblygu cysyniad Technium ledled Cymru ac fe fydd yn darparu unedau i feithrin busnesau yn niwydiannau'r cyfryngau, yn newydd ac yn sefydledig. Yn unol ag egwyddorion Technium, fe fydd yn hyrwyddo'r gwaith o sefydlu awyrgylch o ansawdd da a fydd o gymorth wrth greu a chefnogi busnesau a seilir ar wybodaeth.

Mae'r datblygwr, Hartham Park Cyf, wedi dod i gytundeb â Choleg Sir Gâr yngylch prynu'r adeilad, ac mae ar fin penodi contractwyr i ymgymryd â cham cyntaf yr adnewyddu. Mae'r cwmni'n cydweithio'n agos ag Awdurdod Datblygu Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i sicrhau bod cam cyntaf y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr haf.

### Arian Cyfatebol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

**C11 Janet Ryder:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan y Gweinidog i sicrhau arian cyfatebol llawn yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant nesaf ar gyfer y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd sy'n cael ei ddyrannu i Gymru? (OAQ18076)

**Andrew Davies:** Mae Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi trafod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â'r angen i barhau'r ddarpariaeth o

adnoddau ychwanegol, ar ben darpariaethau fformiwla Barnett, i dalu am dderbynebau grant a ragwelir oddi wrth yr UE dros gyfnod yr arolygiad nesaf o wariant.

**Economi Cymru yn Elwa ar Dwristiaeth**

**C12 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae economi Cymru yn elwa ar y diwydiant twristiaeth? (OAQ18085)

**Andrew Davies:** Mae twristiaeth yn chwarae rhan greiddiol yn economi Cymru. Adlewyrchir hynny yn 'Cymru'n Ennill', sy'n gosod amcanion eglur i gynyddu gwariant twristiaeth a hybu a datblygu twristiaeth yng Nghymru ymhellach.

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn amcangyfrif bod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gan gynnwys ymweliadau undydd, yn cynhyrchu incwm blynyddol gwerth dros £2.7 biliwn, a bod y diwydiant yn cyflogi hyd at 100,000 o bobl yng Nghymru yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Mae ffyrdd o amcangyfrif holl effeithiau economaidd twristiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad pum-blynyddol Bwrdd Croeso Cymru sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwnnw, a'r newidiadau diweddar i fethodoleg Arolwg Twristiaeth y DU, yn cyfrannu at greu darlun mwy cyflawn o'r cyfraniad y mae twristiaeth yn ei wneud i economi Cymru.

**Hynt y Strategaeth Datblygu Economaidd**

**C13 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt strategaeth datblygu economaidd Cymru? (OAQ18048)

**Andrew Davies:** Ers cyflwyno 'Cymru'n Ennill' ym mis Ionawr 2002, yr ydym wedi gwneud cynnydd adeiladol iawn ar sawl talcen, gan gynnwys cyflwyno grant newydd, sef grant buddsoddi'r Cynulliad; darparu mwy o gymorth i arloesi a masnacheiddio technoleg; ailwampio ein gwasanaethau cynorthwyo busnesau; a datblygu cysyniad Technium ledled Cymru. Yr ydym hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i wella ein rhwydweithiau trafnidiaeth a chyfathrebu, symleiddio trefniadau cynllunio a datblygu'r sector addysg uwch. Rhoddaf adroddiad yn yr hydref gerbron y Pwyllgor Datblygu Economaidd am y gwaith sydd wedi'i wneud, ac fe gyhoeddaf adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

*Tynnwyd cwestiynau 14 (OAQ18078) a 15 (OAQ18046) yn ôl.*

**Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Arian Ychwanegol i Lywodraeth Leol a Chymunedau**

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddarparu arian ychwanegol i bortffolio llywodraeth leol a chymunedau? (OAQ18054)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mater i'w drafod yng nghylch cynllunio'r gyllideb yw hwnnw. Penderfynir yng ngoleuni safbwyntiau'r Pwyllgorau, ein partneriaid a blaenoriaethau eraill y Cynulliad.

**Amcangyfrifon Diweddaraf o Danwariant 2001-02**

**C14 Phil Williams:** Beth yw amcangyfrifon diweddaraf y Gweinidog o danwariant 2001-2002? (OAQ18062)

**Edwina Hart:** Rhyw £77 miliwn: tua £41 miliwn ar derfyn gwariant adrannau'r Cynulliad a rhyw £36 miliwn o wariant a reolir yn flynyddol.

## Cyllid Amaethyddiaeth

**C15 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i amaethyddiaeth yng Nghymru? (OAQ18089)

**Edwina Hart:** Mater i'w drafod yng nghylch cynllunio'r gyllideb yw hwnnw. Penderfynir yng ngoleuni safbwyntiau'r Pwyllgorau, ein partneriaid a blaenoriaethau eraill y Cynulliad.